# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

The Laurels Dental Practice, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 14 Tachwedd 2017

Dyddiad cyhoeddi: 15 Chwefror 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** **0300 062 8163**

**E-bost:** **hiw@wales.gsi.gov.uk**

**Ffacs:** **0300 062 8387**
**Gwefan:** **www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-78903-234-5



© Hawlfraint y Goron 2018

# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ........ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ........ 6

3. Yr hyn a ganfuom ........ 7

   Ansawdd profiad y claf ........ 8

   Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ........ 13

   Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ........ 22

4. Beth nesaf? ........ 25

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol ........ 26

   Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad ........ 27

   Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ........ 28

   Atodiad C – Cynllun gwella ........ 30

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: mae profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn rhoi barn wrthrychol ar sail yr hyn yr ydym yn ei weld**
- **Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull o weithredu yn effeithlon, yn effeithiol ac yn gymesur**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Rhoi sicrwydd:** | **Darparu barn annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliannau trwy adrodd a rhannu arferion da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o The Laurels Dental Practice, 28 Vadre Road, Clydach, Abertawe, SA6 5LP, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, ar 14 Tachwedd 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Safonau Iechyd a Gofal 2015, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod The Laurels Dental Practice yn darparu gofal diogel ac effeithiol ar gyfer ei gleifion.

Roedd y practis yn canolbwyntio ar y claf ac roedd ganddo bolisïau a gweithdrefnau priodol ar waith i sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion.

Roedd y practis yn lân a thaclus, ond roedd yr ystafelloedd triniaeth yn dangos ôl traul ac roedd angen gosod cloeon ar rai drysau er mwyn sicrhau bod cleifion a staff yn ddiogel a chofnodion meddygol yn cael eu cadw'n gyfrinachol.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y practis yn ymrwymedig i ddarparu safon dda o ofal ar gyfer ei gleifion
- Roedd y staff yn rhyngweithio â chleifion mewn modd proffesiynol, caredig a chwrtais

  Roedd tystiolaeth o reoli da ac arweinyddiaeth gref gan y prif ddeintydd

Gwnaethom argymell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r holl staff clinigol gael hyfforddiant cyfredol sy'n berthnasol i'w rôl
- Dylid storio gwastraff peryglus yn ddiogel a gwneud trefniadau eraill ar gyfer cael gwared ar wastraff nad yw'n beryglus
- Mae angen i'r practis sicrhau bod cofnodion meddygol yn cael eu cwblhau gyda'r holl ddata gofynnol ar bob ymweliad a bod hanesion meddygol yn cael eu llofnodi a'u cydlofnodi

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae The Laurels Dental Practice yn darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion yn ardal Clydach. Mae’r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys dau ddeintydd a chwe nyrs ddeintyddol.

Mae’r practis yn darparu amrediad o wasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol cyffredinol preifat.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Canfuom fod y practis yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion.

Gwelsom staff yn bod yn gwrtais ac yn foesgar tuag at gleifion.

Nododd y cleifion hynny a ddarparodd sylwadau eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth yr oeddent wedi eu derbyn.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom wahodd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 13 holiadur. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Popeth yn dda iawn – rhagorol"*
>
> *"Daliwch ati"*

### Cadw'n iach

Roedd gan y practis ddau fan aros, un ar gyfer pob deintydd, a gwelsom fod amrywiaeth o daflenni gwybodaeth yn hybu iechyd y geg ar gael ym mhob ardal. Yn ogystal, roedd ffolder ym mhob man aros a oedd yn cynnwys detholiad o ddatganiad o ddiben y practis, ei bolisïau, rhestri prisiau ar gyfer triniaeth ddeintyddol y GIG a thriniaeth ddeintyddol breifat, a rhif cyswllt ar gyfer triniaeth y tu allan i oriau gwaith. Ar wahân i'r polisïau, roedd yr wybodaeth wedi'i darparu yn Gymraeg a Saesneg.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw ynghylch sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Roedd arwyddion 'dim ysmygu' a thaflenni rhoi'r gorau i ysmygu yn y mannau aros, a oedd yn cadarnhau bod pwys yn cael ei roi ar gydymffurfio â deddfwriaeth safleoedd di-fwg.

### Gofal ag urddas

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym ei fod wedi'i drin â pharch wrth ymweld â'r practis.

Roedd y practis ar y llawr daear ac roedd ganddo ddwy fynedfa ac, yn dilyn hyn, dau fan aros, un ar gyfer pob deintydd, a etifeddwyd gan y prif ddeintydd blaenorol. Roedd un dderbynfa'n gwasanaethu'r ddau fan aros. Dywedodd staff wrthym y gallent ddefnyddio ystafell driniaeth wag neu gegin y staff, a oedd i ffwrdd o'r dderbynfa, os oedd angen iddynt gael sgwrs neu alwad ffôn breifat gyda chlaf.

Cofnodion papur oedd gan y practis yn bennaf ar gleifion gan mai ym mis Hydref 2017 y mabwysiadwyd dull cadw cofnodion electronig. Nid oedd y cofnodion papur yn cael eu storio'n ddiogel, gan eu bod yn cael eu ffeilio ar silffoedd agored yn ardal y dderbynfa. Eto, roedd y system hon wedi cael ei hetifeddu gan gyn-berchennog y practis. Dywedwyd wrthym y bwriadwyd sganio'r holl gofnodion papur yn ystod y 12 mis nesaf. Yn ogystal, nid oedd y drws i ardal y dderbynfa wedi'i gloi, felly gallai claf neu rywun a oedd yn ymweld â'r fflat preswyl ar y llawr cyntaf, y gellid ei gyrraedd trwy un o'r prif fynedfeydd a thrwy'r practis, gael mynediad ati. Gan gydnabod na fyddai'n ymarferol i ddisodli'r silffoedd gyda chabinetau ffeilio oherwydd prinder lle, argymhellwn fod clo'n cael ei osod ar ddrws y dderbynfa.

Roedd gan y ddwy ystafell driniaeth ddeintyddol ddrysau y gellid eu cau pan oedd claf yn derbyn gofal er mwyn rhoi preifatrwydd ac urddas iddynt. Roedd gan un ystafell driniaeth ddau ddrws, un a oedd yn arwain i'r man aros ac un arall a oedd yn arwain at y dderbynfa. Byddai'r drws i'r dderbynfa ar agor tra oedd lluniau pelydr-X yn cael eu tynnu er diogelwch i'r deintydd a oedd yn gweithio'r offer pelydr-X. Fodd bynnag, gadawyd y drws i'r dderbynfa'n gilagored yn ystod yr arolygiad, gan ganiatáu i ni glywed y sgwrs rhwng y deintydd a chlaf. Argymhellwn fod y practis yn sicrhau bod y drysau i'r ystafelloedd triniaeth ar gau yn ystod ymgynghoriadau.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis osod clo ar y prif ddrws sy'n arwain i ardal y dderbynfa.

Argymhellwn fod y practis yn sicrhau bod y drysau i'r ystafelloedd triniaeth ar gau yn ystod ymgynghoriadau.

## Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd y mwyafrif o gleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo'n rhan o unrhyw benderfyniadau a wneir ynghylch eu triniaeth i'r graddau yr oeddent yn dymuno, a'u bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael iddynt.

Dywedodd y mwyafrif o gleifion a gwblhaodd holiadur fod cost unrhyw driniaeth yn cael ei hesbonio'n glir iddynt cyn iddynt dderbyn unrhyw driniaeth, a dywedasant wrthym eu bod yn deall sut roedd cost eu triniaeth yn cael ei chyfrifo.

Roedd rhestri prisiau wedi'u harddangos yn y ddau fan aros, a oedd yn nodi costau triniaethau deintyddol y GIG a thriniaethau deintyddol preifat.

Roedd manylion y deintyddion sy'n ymarfer a'u horiau agor priodol wedi'u harddangos y tu allan i'w mynedfeydd priodol.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym, a oedd yn cynnwys siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg, eu bod yn gallu siarad â staff yn eu hiaith ddewisol bob amser.

Yn ystod yr arolygiad, sylwasom fod y staff yn siarad â chleifion yn gwrtais ac yn foesgar wyneb yn wyneb a thros y ffôn.

## Gofal amserol

Dywedodd y rhan fwyaf o'r 13 o gleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Roedd manylion sut allai cleifion gael gafael ar ofal deintyddol brys pan oedd y practis ar gau wedi'u harddangos y tu mewn a'r tu allan i'r practis. Nodwyd yr wybodaeth hon hefyd ar neges peiriant ateb y practis.

Roedd y practis yn ymdrechu i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn hysbysu'r claf a oedd yn aros ar unwaith pe bai deintydd yn rhedeg yn hwyr.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Cadarnhaodd y rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

## Hawliau pobl

Canfuom fod y mynediad i'r practis yn dda. Mae'r prif fynedfeydd, y mannau aros a'r ddwy ystafell driniaeth i gyd ar y llawr daear ac yn hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd. Roedd llethrau a chanllawiau yn arwain o'r stryd i'r ddwy fynedfa.

Roedd cyfleusterau toiled ar gael i gleifion eu defnyddio ar y llawr daear gyda mynediad da. Awgrymwyd i'r practis y gallai ddymuno ystyried gosod canllawiau i ddarparu rhywfaint o gymorth i gleifion â phroblemau symudedd.

Roedd y maes parcio yng nghefn y practis yn breifat ac i'w ddefnyddio gan y prif ddeintydd a'r deintydd cyswllt yn unig. Nid oedd ar gael i gleifion ei ddefnyddio, ond roedd parcio ar gael ar y stryd ac mewn maes parcio canolfan gymunedol gerllaw.

## Gwrando a dysgu o adborth

Dywedodd bron i ddwy ran o dair o'r cleifion a gwblhaodd holiadur na fyddent yn gwybod sut i fynegi pryder na chwyno am y gwasanaethau yr oeddent wedi'u cael yn y practis deintyddol.

Roedd gan y practis bolisïau cwyno ar gyfer triniaeth ddeintyddol y GIG a thriniaeth ddeintyddol breifat. Roedd y polisi a oedd yn ymwneud â chwynion o ran triniaeth ddeintyddol y GIG yn cyd-fynd â phroses gwyno'r GIG, "Gweithio i Wella".[1] Roedd y polisi a oedd yn ymwneud â chwynion o ran triniaeth ddeintyddol breifat yn cyd-fynd â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat Cymru 2008.[2] Roedd y rhain ar gael yn y ffolderi gwybodaeth i gleifion yn y ddau fan aros, a gellid darparu copïau ar gyfer cleifion yn ôl y gofyn. Gan na allai'r practis sicrhau bod pob claf yn darllen cynnwys y ffolder, argymhellwn fod y ddau

---

[1] “Gweithio i Wella” yw’r broses integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt, a dysgu ohonynt. Materion a nodir o ddigwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion ac, o ran cyrff y GIG yng Nghymru, honiadau am wasanaethau a ddarperir gan gorff cyfrifol yng Nghymru yw pryderon.

[2] https://www.dentalprotection.org/uk/help-advice/regulations/wales/private-dentistry-(wales)-regulations-2008

bolisi'n cael eu harddangos ar waliau'r ddau fan aros fel bod cleifion yn gallu eu gweld yn glir.

Roedd y practis yn cadw ffeil a oedd yn cynnwys cofnodion cynhwysfawr o'r cwynion a dderbyniwyd, y camau a gymerwyd a'r canlyniad. Roedd y practis hefyd yn cofnodi unrhyw bryderon ar lafar/anffurfiol ar nodiadau'r claf. Argymhellir bod adborth cleifion yn cael ei gadw ar wahân i'w nodiadau meddygol, a chynghorir bod y practis yn cadw llyfr nodiadau yn y dderbynfa i gofnodi unrhyw adborth ar lafar. Byddai hyn, ynghyd â'r wybodaeth yn y ffeil gwynion, yn galluogi'r practis i nodi unrhyw themâu ailadroddol.

Roedd gan y practis flychau awgrymiadau yn y ddau fan aros hefyd.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis arddangos ei bolisïau cwyno ar gyfer triniaeth ddeintyddol y GIG a thriniaeth ddeintyddol breifat yn y ddau fan aros.

Dylai'r practis roi'r gorau i gofnodi adborth anffurfiol cleifion yng nghofnodion y cleifion, a gwneud trefniadau eraill ar gyfer cofnodi gwybodaeth o'r fath.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth fod y cleifion yn derbyn gofal deintyddol diogel ac effeithiol. Roedd yr ystafelloedd triniaeth yn lân ac yn llawn offer, ond roedd rhai arwyddion o dreulio.

Roedd gan y practis gyfleusterau penodol ar gyfer dadheintio offer deintyddol, ac roedd yr offer yn cael eu gwirio a'u gwasanaethu'n rheolaidd.

Mae angen i'r practis sicrhau bod cofnodion meddygol cleifion yn cael eu cwblhau yn ystod pob ymweliad claf a bod hanesion meddygol yn cael eu llofnodi a'u cydlofnodi.

### Gofal diogel

Cafodd ein pryderon ynghylch y gofyniad i'r holl staff clinigol gael tystysgrifau cyfredol o ran dadebru cardio-anadlol eu mynegi pan welwyd nad oedd un nyrs ddeintyddol wedi cwblhau hyfforddiant o'r fath yn ystod y 12 mis diwethaf. Pan dynnwyd sylw'r nyrs ddeintyddol at hyn, trefnodd i fynychu cwrs priodol cyn diwedd mis Tachwedd. Mae manylion y gwelliannau y nodwyd gennym fel rhai oedd angen eu gwneud ar unwaith wedi'u darparu yn Atodiad A.

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld ag ef.

Ni fynegwyd unrhyw bryderon gan y cleifion a gwblhaodd holiadur ynghylch glendid y practis deintyddol. Roedd y tu allan i'r adeilad a'r mannau cyhoeddus dan do i'w gweld yn cael eu cynnal a chadw'n dda, gyda llethrau a chanllawiau'n arwain at y ddau brif fynedfa. Yn yr ystafell driniaeth gyntaf, roedd arwyddion traul ar yr arwynebau gwaith, ac nid oedd yr ymylon rhwng y llawr a'r waliau wedi'u selio. Cynghorwn y dylai'r practis ystyried mynd i'r afael â hyn a

chreu gorffeniad di-dor er mwyn hwyluso glanhau trwyadl ac i newid yr arwynebau gwaith. Yn yr ail ystafell driniaeth, roedd lens amddiffynnol y golau llaw-drin ar goll. Argymhellwn fod hyn yn cael ei newid neu olau llaw-drin newydd yn cael ei osod. Argymhellwn hefyd fod dyfeisiau ailorchuddio'n cael eu gosod yn y ddwy ystafell driniaeth er mwyn trafod nodwyddau'n ddiogel.

Roedd y cywasgwr a'r offer glanhau mewn estyniad cefn a oedd yn arwain o gegin y staff. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd y drws cefn, a oedd yn allanfa dân, wedi'i gloi a gellid cael mynediad hawdd iddo o'r maes parcio preifat, gan alluogi rhywun i gael mynediad i ardal y dderbynfa o bosibl. Argymhellwn fod y drws hwn yn cael ei gloi ar bob adeg er mwyn atal aelodau o'r cyhoedd rhag cael mynediad at fannau gwaharddedig.

Gwelsom fod diffoddwyr tân ar gael mewn lleoliadau amrywiol o amgylch yr adeilad, a nodwyd bod y rhain wedi'u gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn sicrhau bod yr offer yn gweithio'n briodol. Gwnaethom nodi bod diffoddwr dŵr ar bwys yr offer cyfrifiadurol, a byddem yn argymell bod hwn yn cael ei amnewid am un sy'n addas i'w ddefnyddio ar gyfarpar trydanol. Gellid gweld cyfarwyddiadau ar gyfer yr allanfeydd brys.

Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy'n cael eu cynnal yn rheolaidd i helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn cael eu defnyddio’n ddiogel yn y practis.

Roedd contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus (clinigol) yn ddiogel. Fodd bynnag, cawsom wybod bod gwastraff nad yw'n beryglus (domestig) yn cael ei waredu trwy ei roi gyda gwastraff y fflat preswyl ar y llawr cyntaf. Eiddo masnachol yw'r practis deintyddol, felly dylai ei wastraff nad yw'n beryglus gael ei waredu trwy drefniant masnachol. Argymhellwn fod y practis yn gwneud trefniadau gwahanol a phriodol i gael gwared ar y gwastraff hwn, e.e. trwy'r awdurdod lleol neu drwy gwmni gwaredu gwastraff cofrestredig.

Roedd gwastraff peryglus yn cael ei storio yn yr estyniad cefn. Nid oedd y biniau'n ddiogel ac nid oedd y drws a oedd yn arwain at y maes parcio preifat wedi'i gloi. Argymhellwn fod yr holl wastraff peryglus yn cael ei storio'n ddiogel.

Roedd gan y practis lyfr ‘Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus’ (RIDDOR), a oedd yn cynnwys manylion cyswllt a phrotocolau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Roedd poster iechyd a diogelwch wedi'i arddangos.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis osod gorchudd amddiffynnol newydd ar y golau llaw-drin yn yr ail ystafell driniaeth.

Dylai'r practis osod dyfeisiau ailorchuddio yn y ddwy ystafell driniaeth er mwyn trafod nodwyddau'n ddiogel.

Er mwyn cynnal uniondeb y drws cefn fel allanfa dân, argymhellwn fod y drws yn cael ei gloi ar bob adeg.

Dylai'r practis amnewid y diffoddwr tân dŵr am un sy'n briodol i'w ddefnyddio ar offer trydanol.

Dylai'r practis wneud trefniadau gwahanol a phriodol i gael gwared ar wastraff nad yw'n beryglus.

Argymhellwn fod yr holl wastraff peryglus yn cael ei storio'n ddiogel.

## Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau penodol a phriodol ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05.[3]

Roedd y gwaith o lanhau offer cyn eu sterileiddio'n cael ei wneud â llaw. Gwnaethom nodi bod y practis yn defnyddio sgrwb dwylo ar gyfer y broses hon, a byddem yn argymell bod y diheintydd cywir yn cael ei brynu a'i ddefnyddio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr. Yn ogystal, argymhellwn fod y staff yn sgwrio'r offer o dan ddŵr ac nid mewn dŵr sy'n rhedeg. Byddem hefyd yn cynghori bod y practis yn ystyried prynu baddon uwchsonig ar gyfer y dasg hon, yn unol â'r canllawiau.

[3] Mae’r ddogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn darparu canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Gwnaethom nodi bod olion dannedd yn cael eu dadheintio gyda chwistrellwr dadheintio. Argymhellwn fod gan bob ystafell driniaeth gynhwysydd pwrpasol ar gyfer mwydo olion dannedd a gwaith deintyddol arall a ddaw o'r labordy.

Roedd gan y practis ddau beiriant awtoclaf, a gwelsom fod y staff yn cynnal gwiriadau cynnal a chadw dyddiol ac yn cadw llyfrau cofnodi. Gwnaethom hefyd nodi bod gan y practis raglen cynnal a chadw ar waith ar gyfer yr offer.

Roedd gan staff fynediad at gyfarpar diogelu personol ac yn ei ddefnyddio wrth weithio yn yr ystafell ddadheintio. Darparodd y ddau ddeintydd a'r nyrsys deintyddol dystiolaeth o hyfforddiant cyfredol mewn rheoli heintiau.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod y diheintydd priodol yn cael ei ddefnyddio wrth lanhau'r offer â llaw fel rhan o'r broses ddadheintio.

Dylai'r staff sgwrio'r offer o dan ddŵr ac nid mewn dŵr sy'n rhedeg pan fyddant yn glanhau â llaw.

Dylai pob ystafell driniaeth gael cynhwysydd pwrpasol ar gyfer mwydo olion dannedd a gwaith deintyddol arall a ddaw o'r labordy.

### Rheoli meddyginiaethau

Er bod gan y practis weithdrefnau ar waith i ymdrin ag argyfyngau cleifion, nid oedd swyddog cymorth cyntaf wedi'i benodi. Argymhellwn fod o leiaf dau aelod o'r staff yn mynychu cwrs cymorth cyntaf er mwyn sicrhau bod swyddog cymorth cyntaf yn bresennol yn y practis ar bob adeg.

Roedd gan yr holl staff heblaw un dystysgrifau a oedd yn dangos eu bod wedi derbyn hyfforddiant priodol ar ddadebru cardio-anadlol o fewn y 12 mis diwethaf. Pan ddygwyd sylw'r practis at y ffaith fod tystysgrif y nyrs ddeintyddol wedi dod i ben, trefnodd y nyrs i fynychu'r cwrs nesaf oedd ar gael ym mis Tachwedd 2017.

Gwnaethom nodi bod y cyffuriau argyfwng o fewn eu dyddiad dod i ben ac, er eu bod wedi'u storio'n ddiogel, roeddent wedi'u storio mewn ffeil grych.

Cynghorir y practis i storio'r rhain mewn cynhwysydd plastig caled sy'n gryf ac yn galluogi'r staff i gael gafael arnynt yn hawdd. Cawsom wybod bod y cyffuriau a'r offer brys yn cael eu gwirio yn unol â'r safonau a nodir gan Gyngor Dadebru'r DU,[4] ond nid oedd unrhyw dystiolaeth o hyn. Argymhellwn fod y practis yn cyflwyno rhaglen i wirio dyddiadau dod i ben cyffuriau ac offer argyfwng ac i gofnodi'r rhain mewn llyfr cofnodi.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis drefnu bod o leiaf dau aelod o'r staff yn mynychu cwrs cymorth cyntaf a bod swyddog cymorth cyntaf yn bresennol yn y practis ar bob adeg.

Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff yn cwblhau hyfforddiant ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a pherfformio dadebru cardio-anadlol.

Argymhellwn fod y practis yn cyflwyno rhaglen i wirio a chofnodi dyddiadau dod i ben cyffuriau ac offer argyfwng a bod staff yn cofnodi mewn llyfr cofnodi pob tro y caiff gwiriad ei gwblhau.

## Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Roedd y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo ac amddiffyn llesiant a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed a allai fod mewn perygl. Roedd polisïau amddiffyn ar gyfer plant ac oedolion ar waith, ac roedd y ddau bolisi yn cynnwys manylion cyswllt y timau diogelu lleol perthnasol. Yn ogystal, er mwyn ehangu dealltwriaeth a gwybodaeth y staff, roedd y prif ddeintydd wedi cyflwyno ychydig o wybodaeth gefndirol a chanllawiau ategol ar ddiogelu.

Gwnaethom nodi nad oedd gan un deintydd dystiolaeth o gyflawni hyfforddiant diweddar ar amddiffyn plant. Argymhellwn fod y practis yn sicrhau bod staff sydd â mynediad at gleifion yn cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion.

[4] Sefydlwyd Cyngor Dadebru'r DU i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil, a chydweithrediad.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod gan yr holl staff fynediad at hyfforddiant diogelu perthnasol a'u bod yn ei gwblhau.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod y ddwy ystafell driniaeth yn lân ac yn cynnwys offer priodol ar gyfer diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol. Roedd pob ystafell driniaeth wedi'i chynllunio a'i gosod mewn modd a oedd yn sicrhau bod offer ymbelydredd yn cael eu defnyddio'n ddiogel. Yn ystafell driniaeth dau, golygai hyn fod yn rhaid i'r deintydd a'r nyrs ddeintyddol sefyll yn ardal y dderbynfa. Hefyd, roedd gan ystafell driniaeth dau ddau drws, un yn arwain at y dderbynfa a'r llall at y man aros. Argymhellir bod clo neu glicied yn cael ei gosod ar y drws sy'n arwain at y man aros er mwyn atal mynediad anawdurdodedig gan rywun i mewn i'r ardal a reolir pan fydd lluniau'n cael eu tynnu.

Gwnaethom nodi nad oedd gan un deintydd dystysgrifau cyfredol ar gyfer yr hyfforddiant gofynnol, yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol[5] a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.[6] Fodd bynnag, cawsom gadarnhad fod lle wedi'i gadw i'r ddau ddeintydd fynychu cwrs priodol ym mis Ionawr 2018. Byddem yn cynghori'r holl nyrsys deintyddol sy'n ymwneud â lluniau pelydr-X i gwblhau'r hyfforddiant hwn.

Er bod gwiriadau'n cael eu cynnal bob dydd, nid oedd y practis yn gallu darparu tystiolaeth o wasanaethu rheolaidd na phrofion ar y cywasgwr. Argymhellwn fod hyn yn cael ei unioni.

Yr hyn y mae angen ei wella

Argymhellir bod clo neu glicied yn cael ei gosod ar y drws sy'n arwain at y man aros er mwyn atal mynediad anawdurdodedig gan rywun i mewn i'r ardal a reolir pan fydd lluniau'n cael eu tynnu.

---

[5] Cyngor Deintyddol Cyffredinol – http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx

[6] http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/pdfs/uksi_20001059_en.pdf

Mae angen i'r practis sicrhau bod y ddau ddeintydd ac unrhyw staff clinigol sy'n defnyddio'r offer pelydr-X yn mynychu hyfforddiant priodol ar y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol).

Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl offer yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd, a rhaid cadw ardystiad priodol o hyn.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaethau y mae'n eu darparu'n barhaus. Gwelsom dystiolaeth fod y practis wedi cynnal archwiliad yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, archwiliad rhagnodi ac archwiliad gwrthficrobau. Dywedwyd wrthym fod archwiliad o'r radiograffau yn cael ei gynnal yn barhaus. Argymhellwn fod y practis yn datblygu rhaglen strwythuredig o archwiliadau parhaus. Gwnaethom hefyd argymell bod y staff clinigol yn dilyn rhaglen o adolygiadau cymheiriaid.

Yr hyn y mae angen ei wella

Argymhellwn fod y practis yn datblygu rhaglen strwythuredig o archwiliadau parhaus.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Dywedwyd wrthym nad yw'r deintyddion yn cwrdd at ddibenion cynnal adolygiadau gan gymheiriaid. Byddem yn argymell bod cyfarfodydd ffurfiol a rheolaidd yn cael eu trefnu ymhlith y deintyddion at y diben hwn. Rydym hefyd yn argymell bod y practis yn gwneud cais am offeryn datblygu practisau Deoniaeth Cymru, sef y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth.[7] Offeryn datblygu tîm practis deintyddol yw offeryn hunanwerthuso'r Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth ac mae'n caniatáu i'r tîm ganolbwyntio ar sut mae'n gweithio.

---

[7] https://dental.walesdeanery.org/improving-practice-quality/maturity-matrix-dentistry

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r deintyddion drefnu cyfarfodydd ffurfiol a rheolaidd at ddiben cynnal adolygiadau gan gymheiriaid.

Dylai'r practis wneud cais am offeryn datblygu practisau Deoniaeth Cymru, sef y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth.

## Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gan y practis bolisi diogelu data ar waith i ddiogelu data cleifion. Roedd gan y practis gyfuniad o gofnodion papur ac electronig. Roedd yr holl ffeiliau electronig yn cael eu cadw'n rheolaidd. Roedd gwybodaeth am gleifion nad oedd yn electronig yn cael ei storio ar silffoedd pwrpasol yn ardal y dderbynfa.

## Cadw cofnodion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion. Mewn rhai achosion, canfuom fod rhai pethau ar goll, megis y canlynol:

- Nid oedd hanesion meddygol wedi'u llofnodi gan y claf na'u cydlofnodi gan y deintydd. Gwelsom welliant ers i'r practis gyflwyno cofnodion electronig.
- Nid oedd lefelau'r archwiliadau periodontol sylfaenol[8] (BPE) yn cael eu cofnodi bob amser.
- Nid oedd pelydrau-X cleifion bob amser yn cael eu cyfiawnhau na'u cofnodi.

Yr hyn y mae angen ei wella

Er mwyn cydymffurfio â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, dylai'r practis sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cwblhau yn ystod pob ymweliad claf er mwyn cofnodi:

[8] Mae asesiad gofalus o'r meinweoedd periodontol yn gydran hanfodol o reoli cleifion. Defnyddir yr archwiliad periodontol sylfaenol (BPE) fel dull sgrinio sylfaenol i wirio statws periodontol claf.

- Cyfiawnhad am ddefnyddio pelydrau-X
- Lefelau archwiliadau periodontol sylfaenol (BPE)
- Hanesion meddygol wedi’u llofnodi gan y claf a'u cydlofnodi gan y deintydd

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau’n cael eu rheoli a’u harwain ac a yw’r gweithle a’r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Y prif ddeintydd oedd yn rheoli'r practis o ddydd i ddydd.

Canfuom fod gan y practis systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y practis a’r staff yn cael cefnogaeth a’u bod yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i gleifion.

Roedd angen i'r practis gyflwyno system arfarnu ffurfiol er budd ei staff.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae The Laurels Dental Practice yn eiddo i'r prif ddeintydd, sy'n gweithio yno'n llawn amser. Ef hefyd oedd yn ei reoli o ddydd i ddydd. Canfuom fod gan y practis arweinyddiaeth gref a bod staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Gwelsom berthynas dda rhwng staff y practis.

Roedd y practis wedi'i drefnu'n dda, ac roedd cofnodion yn cael eu cadw'n dda ar draws y rhan fwyaf o feysydd. Roedd amrediad ehangach o bolisïau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau diogelwch staff a chleifion. Gwelsom fod gan bob polisi ddyddiad adolygu, ac ategwyd rhai gan wybodaeth gefndirol ychwanegol. Er enghraifft, ategwyd y polisïau diogelu plant ac oedolion gan ganllawiau ychwanegol a gafwyd gan Gymdeithas Ddeintyddol Prydain. Cynghorir bod yr holl staff yn llofnodi pob polisi er mwyn cadarnhau eu bod wedi ei ddarllen ac i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth.

Roedd yr holl staff clinigol wedi'u cofrestru i ymarfer gyda’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd ganddynt yr yswiriant indemniad priodol. Mae'r ddau ddeintydd yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat, a gwelsom fod eu tystysgrifau cofrestru wedi'u harddangos, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

## Staff ac adnoddau

### Y gweithlu

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod staff wedi mynychu hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w swyddi ac yn bodloni gofynion datblygiad proffesiynol parhaus. Fodd bynnag, gwnaethom sylwi bod y dyddiad ar dystysgrif un deintydd ar gyfer amddiffyn plant wedi dod i ben, ac argymhellwn ei fod yn trefnu i fynychu cwrs cyn gynted â bo'n ymarferol bosibl.

Roedd y practis yn cynnal cyfarfodydd staff rheolaidd, ond nid yw'r rhain yn cael eu cofnodi. Argymhellwn fod cofnodion yn cael eu llunio ar gyfer pob cyfarfod staff a'u bod yn cael eu dosbarthu a'u llofnodi gan y staff i gyd.

Dywedodd aelodau'r staff wrthym eu bod yn mwynhau gweithio yn y practis ac yn hapus yn cyflawni eu swyddi. Gwelsom dystiolaeth fod gan y practis raglen ymsefydlu a oedd wedi'i rhoi ar waith yn ddiweddar. Nid yw'r staff yn cael arfarniadau blynyddol o'u perfformiad ar hyn o bryd. Dywedodd y prif ddeintydd wrthym ei fod yn bwriadu dechrau'r rhain, a gwelsom ei fod wedi llunio ffurflen arfarnu ddrafft. Argymhellwn fod y practis yn cyflwyno proses arfarnu ffurfiol a rheolaidd ar gyfer holl staff y practis.

Roedd cofnodion ar gael a oedd yn dangos bod yr holl staff clinigol wedi derbyn brechiadau rhag hepatitis B, i amddiffyn eu hunain a chleifion rhag heintiau.[9]

Mae'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat yn gofyn i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru gael tystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gyflwynwyd yn ystod y tair blynedd diwethaf. Roedd dyddiad tystysgrifau'r ddau ddeintydd wedi dod i ben, ond gwelsom dystiolaeth fod y ddau ohonynt wedi cyflwyno ceisiadau i adnewyddu'r rhain. Roedd gan yr holl nyrsys deintyddol dystysgrifau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

[9] Cylchlythyr Iechyd Cymru (2007) 086

### Yr hyn y mae angen ei wella

Argymhellwn fod y practis yn sicrhau bod gan staff fynediad at hyfforddiant perthnasol a'u bod yn ei gwblhau er mwyn bodloni eu gofynion datblygiad proffesiynol parhaus.

Argymhellwn fod y practis yn llunio ac yn dosbarthu cofnodion ar gyfer pob cyfarfod staff.

Argymhellwn fod y practis yn cyflwyno proses arfarnu ffurfiol ar gyfer holl staff y practis.

# 4. Beth nesaf?

Mae'r gwelliannau a'r pryderon uniongyrchol rydym wedi eu nodi yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon o ran diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad.
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd o ran diogelwch cleifion, lle'r ydym am i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae’n eu cymryd.
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle'r ydym am i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae’n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Yn cynnwys digon o fanylion i sicrhau AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau’n systemig ar draws meysydd eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC lle mae angen cymryd camau gweithredu o hyd a/neu maent ar waith, i gadarnhau pryd yr aethpwyd i’r afael â hwy

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, bydd arolygiadau practisau deintyddol yn arolygiadau lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn hyd at ddeuddeg wythnos o rybudd o arolygiad. Gwneir hyn er mwyn gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn cael ei gynnal yn ôl yr arfer, a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o aflonyddwch i gleifion â phosib.

Mae adborth yn cael ei roi i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015. Bydd unrhyw ddeintydd yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn destun darpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir mwy o fanylion am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## **Atodiad A** – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen mynd i'r afael â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Nid oedd un aelod o'r staff clinigol wedi derbyn hyfforddiant priodol ar ddadebru cardio-anadlol yn ystod y 12 mis diwethaf. | Mae'n bwysig fod staff yn cael eu hyfforddi i ymdrin ag argyfyngau meddygol cleifion, gan gynnwys dadebru, a bod ganddynt dystiolaeth gyfredol o'u gallu. | Cafodd y prif ddeintydd a'r nyrs ddeintyddol eu cynghori ar hyn yn ystod yr arolygiad. | Cofrestrodd y nyrs ddeintyddol ei hun ar gwrs hyfforddi priodol, a gynhelir cyn diwedd mis Tachwedd 2017. |

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: The Laurels Dental Practice

## Dyddiad yr arolygiad: 14 Tachwedd 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw faterion a oedd yn gofyn am sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth:

## Enw (llythrennau bras):

## Swydd:

## Dyddiad:

## Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: The Laurels Dental Practice

## Dyddiad yr arolygiad: 14 Tachwedd 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Dylai'r practis osod clo ar y prif ddrws sy'n arwain i ardal y dderbynfa. | 4.1 Gofal ag urddas | Bydd clo â bysellbad rhifol yn cael ei osod ar brif ddrws y dderbynfa. | Andrew Williams | Chwe mis |
| Argymhellwn fod y practis yn sicrhau bod y drysau i'r ystafelloedd triniaeth ar gau yn ystod ymgynghoriadau. | | Gwneir hyn cymaint ag y bo modd ar bob adeg. Bydd mwy o bwys yn cael ei roi ar hyn wrth symud ymlaen. | Andrew Williams | Ar unwaith |
| Dylai'r practis arddangos ei bolisïau cwyno ar gyfer triniaeth ddeintyddol y GIG a thriniaeth ddeintyddol breifat yn y ddau fan aros. | 6.3 Gwrando a dysgu o adborth | Fel y nodwyd, mae'r dogfennau hyn eisoes ar gael i gleifion yn yr ystafelloedd aros yn ein ffolderi gwybodaeth i gleifion. Bydd copïau hefyd yn cael eu hychwanegu i fannau | Andrew Williams | Tri mis |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | hysbysu. | | |
| Dylai'r practis roi'r gorau i gofnodi adborth anffurfiol cleifion yng nghofnodion y cleifion, a gwneud trefniadau eraill ar gyfer cofnodi gwybodaeth o'r fath. | | Bydd y sylwadau hyn yn cael eu nodi yn ein ffolder cwynion a sylwadau bresennol bellach. | Andrew Williams | Ar unwaith |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Dylai'r practis osod gorchudd amddiffynnol newydd ar y golau llaw-drin yn yr ail ystafell driniaeth. | 2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch | Mae hyn eisoes wedi'i unioni. Fel y nodwyd yn ystod yr arolygiad, roedd gennym olau newydd eisoes yn aros i gael ei osod gan beiriannydd. Mae'r golau newydd eisoes wedi'i osod. | Andrew Williams | Ar unwaith |
| Dylai'r practis osod dyfeisiau ailorchuddio yn y ddwy ystafell driniaeth er mwyn trafod nodwyddau'n ddiogel. | | Bydd rhai'n cael eu prynu ar gyfer pob ystafell driniaeth pan fyddwn yn dod o hyd i rai. | Andrew Williams | Ar unwaith |
| Er mwyn cynnal uniondeb y drws cefn fel allanfa dân, argymhellwn fod y drws yn cael ei gloi ar bob adeg. | | Ar ôl trafod â'r staff, rydym wedi cytuno i osod bollt ar du fewn y drws. Credir bod hyn yn ddigon i gyfyngu'r mynediad a gellir ei agor yn hawdd mewn argyfwng. | Andrew Williams | Tri mis |
| Dylai'r practis amnewid y diffoddwr tân dŵr am un sy'n briodol i'w ddefnyddio ar offer trydanol. | | Mae diffoddwr priodol eisoes ar gael yn y practis, ac rydym wedi cyfnewid | Andrew Williams | Ar unwaith |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | lleoliad hwn â lleoliad yr un dŵr. | | |
| Dylai'r practis wneud trefniadau gwahanol a phriodol i gael gwared ar wastraff nad yw'n beryglus. | | Rydym wrthi'n chwilio am gyflenwr priodol i drefnu hyn. | Andrew Williams | Tri mis |
| Argymhellwn fod yr holl wastraff peryglus yn cael ei storio'n ddiogel. | | Fel y trafodwyd ar y pryd, caiff gwastraff peryglus ei storio'n ddiogel ar y safle mewn biniau gwastraff mawr melyn â chaeadau, a chaiff y bagiau eu cau'n ddiogel gyda cheblau clymu. Fel y nodwyd ynghynt yn y cynllun gweithredu hwn, bydd bollt mewnol yn cael ei osod ar ddrws yr ystafell hon i atal mynediad. | Andrew Williams | Tri mis |
| Rhaid i'r practis sicrhau bod y diheintydd priodol yn cael ei ddefnyddio wrth lanhau'r offer â llaw fel rhan o'r broses ddadheintio. | 2.4 Atal a rheoli heintiau a dadheintio | Cafodd y toddiant ei newid ar unwaith ac mae un mwy effeithiol wedi'i ddefnyddio ers diwrnod yr arolygiad. | Andrew Williams | Ar unwaith |
| Dylai'r staff sgwrio'r offer o dan ddŵr ac nid mewn dŵr sy'n rhedeg pan fyddant yn glanhau â llaw. | | Mae'r dull hwn eisoes wedi'i ddefnyddio ers derbyn y cyngor. | Andrew Williams | Ar unwaith |
| Dylai pob ystafell driniaeth gael cynhwysydd pwrpasol ar gyfer mwydo olion dannedd a | | Ceisio dod o hyd i ddeunyddiau i ddisodli ein system chwistrellu diheintydd gyfredol, asesu datrysiadau a | Andrew Williams | Ar unwaith |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| gwaith deintyddol arall a ddaw o'r labordy. | | thrafod y lleoliadau gorau i gael y llif gwaith gorau ar hyn o bryd. | | |
| | | | | |
| Rhaid i'r practis drefnu bod o leiaf dau aelod o'r staff yn mynychu cwrs cymorth cyntaf a bod swyddog cymorth cyntaf yn bresennol yn y practis ar bob adeg. | 2.6 Rheoli meddyginiaethau | Mae un aelod, sef fy hunan, eisoes wedi cwblhau'r cwrs hwn gyda St John Cymru ers yr arolygiad. Wrthi'n asesu'r aelod staff arall gorau a'r amseru gorau i fynychu cwrs arall. | Andrew Williams | Ar unwaith |
| Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff yn cwblhau hyfforddiant ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a pherfformio dadebru cardio-anadlol. | | Mae pob aelod o'r staff eisoes yn rhan o'n cyrsiau dadebru cardio-anadlol ac argyfyngau meddygol mewnol, a gefnogir gan fyfyrwyr ôl-raddedig ac a gynhelir bob mis Ebrill. Mae aelod newydd o'r staff, a oedd wedi colli ein cylchred ond a oedd wedi mynychu cwrs ar adeg ei recriwtio a oedd ymhell o fewn 12 mis i ymuno â ni, wedi cwblhau cwrs ar ddadebru cardio-anadlol ers yr arolygiad, a bydd nawr yn rhan o'n cylchred hyfforddi mewnol flynyddol. | Andrew Williams | Ar unwaith |
| Argymhellwn fod y practis yn cyflwyno rhaglen i wirio a chofnodi dyddiadau dod i ben cyffuriau | | Mae'r prosesau eisoes ar waith, ond rydym wedi gwrando ar gyngor a bydd | Andrew Williams | Dau fis |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| ac offer argyfwng a bod staff yn cofnodi mewn llyfr cofnodi pob tro y caiff gwiriad ei gwblhau. | | dulliau eraill yn cael eu hychwanegu er mwyn creu llyfrau cofnodi ar wahân. Bydd y rhain yn cael eu hychwanegu at ein rhestri gwirio wythnosol a misol. | | |
| Rhaid i'r practis sicrhau bod gan yr holl staff fynediad at hyfforddiant diogelu perthnasol a'u bod yn ei gwblhau. | 2.7 Diogelu plant a diogelu oedolion mewn perygl | Fel y nodwyd, mae hyfforddiant yr holl staff yn gyfredol, heblaw am un agwedd ar hyfforddiant y deintydd cyswllt, nad yw wedi'i chwblhau ers tair blynedd. Bydd y deintydd cyswllt yn cadw lle ar y cwrs hwn cyn gynted ag y deir o hyd i gwrs priodol. | Stephen Farrugia | Tri mis |
| Argymhellir bod clo neu glicied yn cael ei gosod ar y drws sy'n arwain at fan aros ystafell driniaeth 2 er mwyn atal mynediad anawdurdodedig gan rywun i mewn i'r ardal a reolir pan fydd lluniau'n cael eu tynnu. | 2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol | Rydym wedi cael cyngor, a bydd clicied yn cael ei gosod ar du mewn y drws. | Andrew Williams | Chwe mis |
| Mae angen i'r practis sicrhau bod y ddau ddeintydd ac unrhyw staff clinigol sy'n defnyddio'r offer pelydr-X yn mynychu hyfforddiant priodol ar y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol). | | Fel y nodwyd yn ystod yr arolygiad, roeddwn wedi mynychu'r hyfforddiant o fewn yr amserlen a nodir gan ganllawiau a disgwyliadau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, ac roedd lle wedi'i gadw eisoes i'r ddau ddeintydd ar gwrs sy'n | Andrew Williams | Ar unwaith |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | cael ei gynnal ym mis Ionawr 2018. | | |
| Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl offer yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd, a rhaid cadw ardystiad priodol o hyn. | | Fel y trafodwyd, caiff yr holl offer eu gwasanaethu'n rheolaidd heblaw am y cywasgwr newydd, sy'n aros i beiriannydd ei wasanaethu yn y misoedd i ddod. | Andrew Williams | Tri mis |
| Argymhellwn fod y practis yn datblygu rhaglen strwythuredig o archwiliadau parhaus. | 3.1 Gofal diogel a chlinigol effeithiol | Mae nifer o archwiliadau wedi'u cynnal eisoes, ond fel y cynghorwyd, mae angen rhaglen fwy strwythurol wrth symud ymlaen er mwyn sicrhau bod amrywiaeth briodol o bynciau'n cael eu hasesu. | Andrew Williams | Chwe mis |
| Mae angen i'r deintyddion drefnu cyfarfodydd ffurfiol a rheolaidd at ddiben cynnal adolygiadau gan gymheiriaid. | 3.3 Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi | Fel rhan o'r gwaith o gynllunio archwiliadau, bydd cyfarfodydd adolygu cymheiriaid yn cael eu cynnwys yn y gwaith hwn. | Andrew Williams | Rhwng chwech a 12 mis |
| Dylai'r practis wneud cais am offeryn datblygu practis Deoniaeth Cymru, sef y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth. | | Gan nad yw'r offeryn hwn wedi'i hysbysebu i ni o'r blaen, byddwn yn ymchwilio i hyn ac yn gwneud cais i'w gynnwys er mwyn cynorthwyo ein gwaith o gynllunio archwiliadau. | Andrew Williams | Rhwng chwech a 12 mis |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Er mwyn cydymffurfio â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, dylai'r practis sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cwblhau yn ystod pob ymweliad claf er mwyn cofnodi:<br>• Cyfiawnhad am ddefnyddio pelydrau-X<br>• Lefelau archwiliadau periodontol sylfaenol (BPE)<br>Hanesion meddygol wedi'u llofnodi gan y claf a'u cydlofnodi gan y deintydd | 3.5 Cadw cofnodion | Fel rhan o'n gwaith parhaus o foderneiddio prosesau blaenorol, mae ein meddalwedd gyfrifiadurol newydd wedi'i gosod i gynorthwyo â'r gwaith o fewnbynnu gwybodaeth am radiograffau, cyfiawnhad ac asesiadau. Mae hyn eisoes wedi gwella.<br>Eto, mae'n haws cofnodi archwiliadau periodontol sylfaenol, ond mae ymdrechion yn cael eu gwneud i sicrhau bod y lefelau'n cael eu cofnodi ar bob ysbaid ofynnol. Bydd hyn yn cael ei fonitro trwy archwiliad ac adolygiad gan gymheiriaid. | Andrew Williams | Ar unwaith |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Argymhellwn fod y practis yn sicrhau bod gan staff fynediad at hyfforddiant perthnasol a'u bod yn ei gwblhau er mwyn bodloni eu gofynion datblygiad proffesiynol parhaus. | 7.1 Y gweithlu | Mae hyn eisoes wedi gwella'n fawr yn ystod fy nghyfnod mewn swydd a bydd yn parhau i wneud hynny. Yn benodol, byddwn yn defnyddio'r offer datblygiad proffesiynol parhaus ar-lein i fyfyrwyr ôl-raddedig. | Andrew Williams | Ar unwaith |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Argymhellwn fod y practis yn llunio ac yn dosbarthu cofnodion ar gyfer pob cyfarfod staff. | | Bydd cofnodion cyfarfodydd practis yn cael eu cofnodi a'u dosbarthu ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol. | Andrew Williams | Chwe mis |
| Argymhellwn fod y practis yn cyflwyno proses arfarnu ffurfiol ar gyfer holl staff y practis. | | Fel y dangoswyd yn ystod yr arolygiad, mae'r broses hon wedi'i pharatoi a bydd yn cael ei rhoi ar waith yn y misoedd i ddod. | Andrew Williams | Tri mis |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras):Andrew Williams**

**Swydd: Prif ddeintydd**

**Dyddiad: 2 Ionawr 2018**